Trefniadau ymgynghori a manylion cyswllt

Pennod 8

Pennod 8

Trefniadau ymgynghori a manylion cyswllt

Gweithio mewn partneriaeth i wella ein gwasanaethau

1 Caiff y cynigion a amlinellir yn y papur hwn eu llywio gan ymgynghoriad anffurfiol parhaus â rhanddeiliaid allweddol. Yn wir, rydym wedi bod yn ymgynghori ar ddiwygio budd-daliadau analluogrwydd ers 2002, pan gyhoeddwyd *Llwybrau i Waith – Helpu pobl i mewn i gyflogaeth*[39] gennym. Yn yr un modd, mae cynigion ar gyfer rhieni unigol, Budd-dal Tai ac iechyd galwedigaethol yn destun proses hirfaith o ymgynghori a gwerthuso tystiolaeth o bolisïau presennol.

Ymgynghoriad ffurfiol

2 Mae cyhoeddi'r papur hwn yn nodi dechrau cyfnod ymgynghori ffurfiol yn unol â'r canllawiau arfer gorau yng Nghod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghori. Mae Asesiad Effaith Rheoliadol rhannol ar gael yn: www.dwp.gov.uk/aboutus/welfarereform

3 Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn para am 12 wythnos o 24 Ionawr i 21 Ebrill 2006.

4 Mae copïau o'r papur hwn ar gael mewn amrywiaeth o fformatau (gan gynnwys sain, Braille, Easy Read, print bras a fersiynau Saesneg) a gellir eu harchebu drwy gysylltu â:

The Welfare Reform Team
Level 2
The Adelphi
1-11 John Adam St
London WC2N 6HT
Ffôn: 020 7712 2521
Ffacs: 020 7962 8524
Ffôn testun: 020 7712 2492
Ebost: welfarereform@dwp.gsi.gov.uk
(Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am – 4pm.)

Adborth

5 Er mwyn hwyluso'r broses ymgynghori, gofynnwyd cyfres o gwestiynau allweddol drwy gydol y papur a deuir â'r rhain at ei gilydd ar ddiwedd yr adran hon. Mae templed ar gael hefyd yn www.dwp.gov.uk/aboutus/welfarereform

6 Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 21 Ebrill 2006. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad hwnnw. Anfonwch ymatebion ymgynghori i'r Tîm Diwygio Lles.

7 Wrth ymateb, nodwch p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwyntiau sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad mwy, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei

gynrychioli, a, lle y bo'n berthnasol, sut y casglwyd safbwyntiau'r aelodau.

8 Mae rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar gael yn www.dwp.gov.uk/aboutus/welfarereform. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â phobl eraill y gallent fod am gymryd rhan yn y broses hon, cysylltwch â ni.

9 Efallai y bydd angen trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom i'r Adran Gwaith a Phensiynau a gellid ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd ag ymateb gan y Llywodraeth.

10 O ganlyniad i'r gyfraith ynglŷn â mynediad i wybodaeth sydd ym meddiant sefydliadau cyhoeddus, gallem, ar ryw adeg yn y dyfodol, rannu rhywfaint o'ch gwybodaeth neu'ch gwybodaeth i gyd gydag unigolion eraill neu'r cyhoedd. Os nad ydych am i ni wneud hyn, eglurwch pam fel rhan o'ch ateb. Byddwn yn ystyried eich cais os yw'n bosibl y gallai eich gwybodaeth gael ei rhannu. Fodd bynnag, ni allwn addo cadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol nac yn breifat. Os ydych yn pryderu am rannu gwybodaeth amdanoch eich hunan gyda phobl eraill, cyfyngwch ar yr hyn a ddywedwch wrthym, neu peidiwch â dweud unrhyw beth personol wrthym. Os ydych am siarad â rhywun am hyn cyn i chi roi eich safbwyntiau i ni, cysylltwch â'r Tîm Diwygio Lles.

11 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn www.dca.gov.uk/foi/guidance/exguide/index.htm

12 Drwy gydol y cyfnod ymgynghori ffurfiol, byddwn yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i gasglu adborth. Bydd manylion y digwyddiadau hyn ar gael yn: www.dwp.gov.uk/aboutus/welfarereform, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer y rhai sydd am gymryd rhan.

13 Byddwn yn cynhyrchu adroddiad ar yr adborth ymgynghori. Bydd yr adroddiad ar gael yn www.dwp.gov.uk/aboutus/welfarereform

Cwestiynau ymgynghori

1 Beth arall y dylem ei ystyried i roi'r cymhellion cywir i gyflogwyr ddarparu mwy o gymorth iechyd i'w gweithlu?

2 Beth yw'r ffordd orau i ni rannu'r dystiolaeth ar gyfer rôl gwaith yn y broses wella ac arfer da o ran tystysgrifau salwch â gweithwyr meddygol proffesiynol?

3 A yw'r pecyn symleiddio hwn ar gyfer Tâl Salwch Statudol yn darparu cymhellion ar gyfer rheoli absenoldeb yn well ac yn diwallu'r angen i gael llai o fiwrocratiaeth? Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r symiau a ailgyfeiriwyd o'r cynllun trothwy canran?

4 A yw'r mathau o 'weithgarwch addas' a nodwyd gennym yn darparu amrywiaeth synhwyrol o weithgareddau y gellid eu cyflawni er mwyn cael cynllun gweithredu derbyniol?

5 Ai cyfuno Lwfans Byw i'r Anabl yn ogystal â'r Premiwm Anabledd Uwch/Premiwm Anabledd Difrifol ar

gyfer y rheini ar incwm isel yw'r ffordd gywir o dargedu cymorth at bobl anabl sydd â'r anghenion mwyaf?

6 A gytunwch fod y prosesau symleiddio arfaethedig hyn yn adlewyrchu'r egwyddorion sy'n ategu ein cymdeithas fodern yn fwy cywir?

7 Yn eich barn chi, sut y gallwn wella cymhellion gwaith orau o fewn y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd fel bod gan unigolion y cyfle i roi cynnig ar gyfnodau o weithio a gwneud cynnydd tuag at waith llawn amser lle y bo'n bosibl?

8 A fyddai'n rhesymol ymestyn y Premiwm Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith, a'r gofyniad cysylltiedig i gymryd camau yn ôl i gyflogaeth, ar gyfer rhieni unigol â phlant o dan 11 oed? Os felly, beth ddylai'r torbwynt oedran fod?

9 O dan ba amgylchiadau y byddai'n rhesymol ymestyn cyfnod chwe mis y Premiwm Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith, yn eich barn chi?

10 A yw defnyddio darparwyr y sector gwirfoddol a'r sector preifat yn y ffordd hon yn synhwyrol? A fyddai taliadau ar sail canlyniadau yn cymell darparwyr i ymateb i heriau darparu Llwybrau at Waith a'r trefniadau newydd a ddisgrifir ym Mhennod 4?

11 A fydd y cynnig hwn yn darparu dull effeithiol o uno gwaith asiantaethau gwahanol a gwneud gwell defnydd o arian presennol i fynd i'r afael â'r problemau mewn dinasoedd?

12 Sut y dylid addasu Budd-dal Tai i fodloni ein hamcanion o ran diwygio lles i denantiaid yn y sector tai cymdeithasol?

Cyfeiriadau

Pennod 1: Yr her

1 Heb gynnwys hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd tymor byr sydd ar y gyfradd is.

Pennod 2: Helpu pobl sâl neu anabl

2 Mae 'budd-daliadau analluogrwydd' yn cyfeirio at bobl ar Fudd-dal Analluogrwydd cyfrannol neu Lwfans Anabledd Difrifol a phobl ar Gymhorthdal Incwm yn seiliedig ar brawf modd ar sail analluogrwydd.

3 Woodward A, Kazimirskia A, Shaw A, a Pires C, 2003, *New Deal for Disabled People. Evaluation. Eligible population survey. Wave one. Interim report*, Adroddiad Ymchwil DWP Rhif W170, DWP.

4 Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2003, *Transforming disability into ability, policies to promote work and income security for disabled people*, OECD.

5 DWP, 2001, *The short-term effects of compulsory participation in ONE – Survey of clients: Cohort two Wave one*, Adroddiad Ymchwil DWP Rhif 156, DWP.

6 Mae'r OECD hefyd wedi dweud bod y Llwybrau at Waith yn "llwyddiant ysgubol" (OECD, 2005, *Economic Survey of the UK*) a nododd yr IMF fod y cynlluniau peilot "wedi bod yn llwyddiannus" (www.imf.org/external/np/ms/2005/121905.htm).

7 Llywodraeth EM, 2005, *Health, work and well-being – Caring for our future: A strategy for the health and well-being of working-age people*, DWP, Adran Iechyd, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

8 Adran Iechyd, 2004, *Choosing health: Making healthier choices easier*, Cm 6374, Adran Iechyd.

9 Adran Gwaith a Phensiynau, 2004, *Building capacity for work: A UK framework for vocational rehabilitation*, DWP.

10 www.hse.gov.uk/businessbenefits/casestudy.htm

11 Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer Gogledd Iwerddon, 2003, *Working for health: A long-term workplace strategy for Northern Ireland*, HSENI.

12 Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, 2005, *Who cares wins: Absence and labour turnover survey 2005*, CBI.

13 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2002, *Office for National Statistics: Labour market trends*, Y Llyfrfa. Mae'r erthygl ar dueddiadau a ffynonellau data ar absenoldeb oherwydd salwch gan Barham a Leonard wedi'i chynnwys yng nghyhoeddiad mis Ebrill 2002.

14 Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, 2004, *Employee absence 2004: A survey of management policy and practice*, CIPD.

15 Cydffederasiwn Diwydiant Prydain mewn cysylltiad ag AXA, 2004, *Room for improvement: CBI absence and labour turnover survey 2004*, CBI.

16 O 10 diwrnod fesul cyflogai yn y Gwasanaeth Sifil i 9.1, *Cabinet Office analysis of sickness absence in the Civil Service 2004*, ac o 10 diwrnod i 9.5 mewn llywodraeth leol yn seiliedig ar ffurflenni *Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau* a ddychwelir i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

17 Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2003, *Transforming disability into ability, policies to promote work and income security for disabled people*, OECD.

18 Ni fyddai peidio â chyfranogi mewn ymyriad meddygol yn destun cosb budd-dal.

19 Legard R, Lewis J, Hiscock J a Scott J, 2003, *Evaluation of capability report: Identifying the work-related capabilities of incapacity benefits claimants*, Adroddiad Ymchwil DWP Rhif W162, DWP.

20 Yr eithriad i hyn oedd pobl a oedd yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith, yr oedd eu cyfnod cysylltu hyd at ddwy flynedd.

21 Uned Strategaeth y Prif Weinidog, adroddiad ar y cyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Adran Iechyd, Adran Addysg a Sgiliau, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005, *Improving the life chances of disabled people*, Uned Strategaeth y Prif Weinidog, DWP, Adran Iechyd, DfES, ODPM.

22 Adran Iechyd, 2005, *Independence, well-being and choice: Our vision for the future of social care for adults in England*, Cm 6499, Y Llyfrfa.

Pennod 3: Helpu rhieni unigol

23 Trysorlys EM, 2004, *Choice for parents, the best start for children: A ten year strategy for childcare*, Y Llyfrfa.

24 Swyddfa'r Alban, 1998, *Meeting the childcare challenge: A childcare strategy for Scotland*, Cm 3958.

25 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005, *Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant*, Adran Addysg a Hyfforddiant.

26 Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2005, *Babies and bosses: OECD recommendations to help families balance work and family life*, OECD.

Pennod 4: Helpu gweithwyr hŷn

27 Amcangyfrifir (mewn adroddiad gan Swyddfa'r Cabinet yn 2000) bod y gostyngiad mewn cyfraddau gwaith ers 1979 yn costio £16 biliwn i'r economi y flwyddyn mewn allbwn a gollir.

28 *Arolwg y Gweithlu* Gwanwyn – Gaeaf 2004 a rhagamcaniadau'r boblogaeth yn seiliedig ar Adran Actiwari'r Llywodraeth 2004, Prydain Fawr.

29 Adran Gwaith a Phensiynau, 2002, *Symlrwydd, diogelwch a dewis: Gweithio a chynilo ar gyfer ymddeoliad*, Cm 5677, DWP.

30 Comisiwn Pensiynau, 2004, *Pensions: Challenges and choices: The first report of the Pensions Commission;* Comisiwn Pensiynau, 2005, *A new pension settlement for the twenty-first century: The second report of the Pensions Commission*, Comisiwn Pensiynau.

Pennod 5: Diwygio lles

31 Lefel 1 – yn cydnabod y gallu i ddarllen gydag arweiniad a goruchwyliaeth, ynghyd â gwybodaeth a sgiliau sylfaenol. Yn cynnwys TGAU graddau D i G, lefel 1 NVQ a chymwysterau galwedigaethol.

Lefel 2 – gall fod yn gyffredinol neu'n alwedigaethol. Yn darparu sgiliau sylfaen sy'n helpu pobl i gael swyddi neu i fynd ymlaen i addysg bellach neu astudiaethau safon uwch. Yn cynnwys TGAU graddau A* i C, GNVQ canolradd, NVQ lefel 2 a chymwysterau galwedigaethol fel Prentisiaethau Modern.

Lefel 3 – yn darparu sgiliau technegol, crefft neu broffesiynol uwch. Gall fod yn gyffredinol neu'n alwedigaethol. Yn cynnwys tystysgrifau ar gyfer cynorthwywyr addysgu, safon uwch, dyfarniadau uwch estynedig a thystysgrifau lefel 3.

32 HMT, 2005, Skills in the UK: The long-term challenge, Y Llyfrfa.

33 Adran Nawdd Cymdeithasol, 1998, *Beating fraud is everybody's business: Securing the future*, Cm 4012, Y Llyfrfa.

34 Adran Nawdd Cymdeithasol, 1999, *Contract newydd ar gyfer lles, Diogelu nawdd cymdeithasol*, Cm 4276, Y Llyfrfa.

35 Adran Gwaith a Phensiynau, 2005, *Reducing fraud in the benefit system: Achievements and ambitions*, DWP.

Pennod 6: Ymagwedd radical newydd tuag at Fudd-dal Tai

36 Adran Gwaith a Phensiynau, 2002, *Building choice and responsibility: A radical agenda for Housing Benefit*, DWP.

37 Caiff amseroedd prosesu Budd-dal Tai eu mesur mewn dyddiau calendr o'r dyddiad y derbynnir y cais i'r dyddiad y gwneir y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae tenantiaid yn ei gymryd i roi tystiolaeth ac unrhyw amser sydd ei angen ar gyfer gweithredu gan drydydd partïon. Er nad yw mesurau perfformiad yn gwbl gymaradwy, mae'r cydberfformiad gan awdurdodau lleol bellach yn cyfateb i berfformiad asiantaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

38 Gellir dod o hyd i'r rhain yn: www.dwp.gov.uk/housingbenefit/lha/evaluation/index.asp

Pennod 8: Trefniadau ymgynghori a manylion cyswllt

39 Adran Gwaith a Phensiynau, 2002, *Llwybrau i Waith: Helpu pobl i mewn i gyflogaeth*, DWP.